# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Susan Jones | Adran Etholiadol: | Tregŵyr |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

- Cynhaliais gymorthfeydd misol yn Llyfrgell Tregŵyr ar fore Sadwrn rhwng 11am a 12 ganol dydd lle roedd preswylwyr yn cael cyngor ar amrywiaeth o faterion. Cyflwynais adroddiadau misol i Gyngor Cymuned Tregŵyr yn amlinellu fy ngweithgareddau. Anfonais adroddiadau at yr Evening Post ac rwyf wedi dechrau tudalen Facebook i roi gwybod i breswylwyr am fy ngweithgareddau.
- Euthum i gyfarfodydd PACT yn y pentref lle roedd modd cydnabod ofnau a phryderon preswylwyr a rhoi camau gweithredu ar waith, e.e. pryderon gyrru'n rhy gyflym a phryderon parcio yn y pentref. Cynhaliais gyfarfodydd rheolaidd â thîm plismona'r pentref i drafod pryderon sy'n ymwneud â'r pentref. Euthum i gyfarfodydd is-adrannol yr heddlu yng Ngorsaf Heddlu Gorseinon.
- Euthum i gyfarfodydd ardal â'r Adran Tai i sicrhau rhoi gwybod am faterion a dod o hyd i atebion, e.e. cafodd mynediad o rai byngalos ei wella yn Llys Elba a sefydlwyd llinellau parcio preswylwyr yn y cyfadeilad hwn.
- Trefnais gyfarfod cyhoeddus i breswylwyr Stad Elba pan ddigwyddodd y sefyllfa adolygu rhent. Cysylltais â'r Gwasanaeth Ymgynghorol Lesddeiliaid a bargyfreithiwr priodol, cynnal cymorthfeydd i helpu'r preswylwyr, hwyluso'r grŵp gweithredu a chefnogi'r grŵp a phreswylwyr unigol trwy gydol y broses.
- Cyd-drafodais â'r Adran Priffyrdd ar amrywiaeth o faterion diogelwch i'r pentref a threfnu i folardiau gael eu gosod ger CK’s Supermarket. Ariannwyd y bolardiau o'm Lwfans Amgylcheddol Cynghorydd a gweddill yr arian a godwyd at y croesfan pelican nad oedd ei angen. Trefnais arwyddion i geisio atal cerbydau nwyddau trwm rhag mynd i Stryd Elba. Hefyd, cynhaliais drafodaethau â Network Rail ynglŷn â materion parcio ar Heol yr Orsaf.
- Trefnais i sigl adenydd ychwanegol a dodrefn ymarfer corff gael eu gosod yn y Parc yn Heol y Parc. Trefnais i feinciau gael eu tynnu o Stad Elba oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol pobl ifanc.
- Euthum i lawer o gyfarfodydd pwyllgor a hyfforddiant yn fy rôl fel llywodraethwr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn Nhregŵyr.
- Roeddwn yn ymdrin â nifer o faterion ward cyffredinol, e.e. tyllau yn y ffordd, parcio, baw cŵn, coed leylandii a chanclwm Japan.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 / 8 | 88% |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 3 / 3 | 100% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 5 / 5 | 100% |
| CYFFREDINOL | 38 / 40 | 95% |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | |
|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Craffu Cyrhaeddiad a Lles | 5 / 6 | 83% |

| | | |
|---|---|---|
| Panel Perfformiad Craffu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 9 / 9 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Mewnfuddsoddi | 4 / 4 | 100% |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 / 1 | 0% |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref | 7 / 7 | 100% |
| Panel Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 9 / 10 | 90% |
| CYFFREDINOL | 35 / 38 | 92% |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**
Yn ychwanegol at fy rôl fel cynghorydd sirol, roeddwn yn aelod o Gyngor Cymuned Tregŵyr. Roeddwn yn llywodraethwr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Roeddwn yn aelod o Gymdeithas Gefeillio Tregŵyr. Roeddwn yn aelod o'r broses graffu (Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, Bwrdd Craffu Plant a Theuluoedd, Fforwm Magu Plant Corfforaethol).

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**
- Trefnais dorch goffa i gofio milwyr o blwyf Waunarlwydd a Thregŵyr a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf i'w gosod wrth y Gofeb Gymreig yn Fflandrys.
- Rhoddwyd grant i Glwb Rygbi Tregŵyr trwy Raglen Ariannu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog oherwydd y cysylltiadau agos â chadlanciau lleol tuag at gost llifoleuadau. Euthum i lansiad y llifoleuadau a oedd ar ffurf gêm rygbi rhwng Clwb Rygbi Tregŵyr a Milwyr Wrth Gefn y Fyddin (Cymru). Gobeithio y bydd hyn yn gwella cysylltiadau fy mhentref â'r Lluoedd Arfog.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**
Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
23/02/2015 - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
09/12/2014 - Difenwi
19/11/2014 - Rôl Aelodau Etholedig mewn Cefnogi a Hyrwyddo Sipsiwn, Roma a Theithwyr
23/10/2014 - Diogelu
08/10/2014 - Manteisio i'r Eithaf ar eich Tabled/Ffôn Clyfar
06/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth
03/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl fel rheolwr data)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
Euthumn i ffeiriau, digwyddiadau coffa a chyngherddau yn y ward. Materion amgylcheddol mewn cysylltiad â'r safleoedd ymgeisiol yn y pentref.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**
Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 01.06.15 |